

2020 Rhif (Cy.)

2020 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Y Gerbyttfordd tua'r Gorllewin rhwng Cyffordd 27 (Cyfnewidfa Talardy), Sir Ddinbych a Chyffordd 24 (Cyfnewidfa'r Faenol), Conwy) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2020

The A55 Trunk Road (Westbound Carriageway between Junction 27 (Talardy Interchange), Denbighshire & Junction 24 (Faenol Interchange), Conwy) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists & Pedestrians) Order 2020

Gwnaed 24 Chwefror 2020

Made 24 February 2020

Yn dod i rym 1 Mawrth 2020

Coming into force 1 March 2020

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A55 Trunk Road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrrd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Y Gerbyttfordd tua'r Gorllewin rhwng Cyffordd 27 (Cyfnewidfa Talardy), Sir Ddinbych a Chyffordd 24 (Cyfnewidfa'r Faenol), Conwy) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 1 Mawrth 2020.

1. The title of this Order is the A55 Trunk Road (Westbound Carriageway between Junction 27 (Talardy Interchange), Denbighshire & Junction 24 (Faenol Interchange), Conwy) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists & Pedestrians) Order 2020 and it comes into force on 1 March 2020.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrrd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys a mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 1 Mawrth 2020 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A55 Caer i Fangor.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

Cymhwysu

6. Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

24 Chwefror 2020

Richard Morgan

Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Y darn o brif gerbyttfordd tua’r gorllewin y gefnffordd sy’n ymestyn o ffordd ymadael tua’r gorllewin Cyffordd 27 (Cyfnewidfa Talardy), Llanelwy, Sir Ddinbych hyd at ganolbwynt Cyffordd 24 (Cyfnewidfa’r Faenol), Abergele, Conwy.

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means any vehicle being used by the emergency services and in connection with the works giving rise to this Order;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A55 Chester to Bangor Trunk Road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 20:00 hours on 1 March 2020 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Prohibitions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

4. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

5. No pedestrian may, during the works period, proceed on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

Application

6. The prohibitions in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

7. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

24 February 2020

Richard Morgan

Head of Planning, Asset Management & Standards
Welsh Government

SCHEDULE

The length of the main westbound carriageway of the trunk road that extends from the westbound exit slip road at Junction 27 (Talardy Interchange), St Asaph, Denbighshire to the centre-point of Junction 24 (Faenol Interchange), Abergele, Conwy.

Y darnau o'r ffyrdd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 27 (Cyfnewidfa Talardy), Cyffordd 26 (Parc Busnes Llanelwy) a Chyffordd 25 (Bodelwyddan).

The lengths of the westbound entry slip roads at Junction 27 (Talardy Interchange), Junction 26 (St Asaph Business Park) and Junction 25 (Bodelwyddan).

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A55 (Y GERBYTFFORDD TUA'R GORLLEWIN RHWNG CYFFORDD 27 (CYFNEWIDFA TALARDY), SIR DDINBYCH A CHYFFORDD 24 (CYFNEWIDFA'R FAENOL), CONWY) (GWAHARDD CERBYDAU, BEICWYR A CHERDDWYR DROS DRO) 2020

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A55, neu gerllaw iddi, rhwng Cyffordd 27 (Cyfnewidfa Talardy), Llanelwy, Sir Ddinbych a Chyffordd 24 (Cyfnewidfa'r Faenol), Abergele, Conwy.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith), a phob beiciwr a cherddwr rhag mynd ar y darnau o'r A55 a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill yn yr Atodlen hefyd.

Ni all cerbydau sy'n fwy na 3 metr o led ddefnyddio'r llwybrau dargyfeiriol a dylent gael eu parcio dros nos mewn ardaloedd dynodedig er mwyn aros i'r ffordd ailagor.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dros dro yn dod i rym ar 1 Mawrth 2020 ac yn weithredol dros nos (20:00 – 06:00 o'r gloch) hyd 10 Mawrth 2020 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

THE A55 TRUNK ROAD (WESTBOUND CARRIAGEWAY BETWEEN JUNCTION 27 (TALARDY INTERCHANGE), DENBIGHSHIRE & JUNCTION 24 (FAENOL INTERCHANGE), CONWY) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES, CYCLISTS & PEDESTRIANS) ORDER 2020

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A55 trunk road between Junction 27 (Talardy Interchange), St Asaph, Denbighshire and Junction 24 (Faenol Interchange), Abergele, Conwy.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services and the works), cyclists and pedestrians from proceeding on the lengths of the A55 specified in the Schedule to this Notice. The alternative routes are also described therein.

Vehicles greater than 3 metres wide will be unable to use the diversionary routes and should park up overnight at designated areas to wait for the road to reopen.

The temporary prohibitions are expected to come into force on 1 March 2020 and operate overnight (20:00 – 06:00 hours) until 10 March 2020 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government

YR ATODLEN

1. Y darn o brif gerbyttfordd tua'r gorllewin yr A55 rhwng ffordd ymadael tua'r gorllewin Cyffordd 27 (Cyfnewidfa Talardy) a Chyffordd 24 (Cyfnewidfa'r Faenol).

2. Y darn o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 27.

Y llwybr arall yw i ddilyn yr A525 tua'r gogledd a'r A547 tua'r gorllewin er mwyn ailymuno â'r A55 wrth Gyffordd 24.

3. Y darnau o'r ffyrdd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 26 (Parc Busnes Llanelwy) a Chyffordd 25 (Bodelwyddan).

Y llwybr arall yw ymuno â'r A55 tua'r dwyrain wrth Gyffordd 26 neu 25, mynd at Gyffordd 27, ac ymadael yno i ddilyn y llwybr dargyfeiriol a ddisgrifir uchod.

SCHEDULE

1. The length of the main A55 westbound carriageway between the westbound exit slip road at Junction 27 (Talardy Interchange) and Junction 24 (Faenol Interchange).

2. The length of the westbound entry slip road at Junction 27.

The alternative route is via the northbound A525 and westbound A547 to re-join the A55 at Junction 24.

3. The lengths of the westbound entry slip roads at Junction 26 (St Asaph Business Park) and Junction 25 (Bodelwyddan).

The alternative route is to join the eastbound A55 at Junction 26 or 25, proceed to Junction 27, exit to follow the diversion route described above.